

DOLEN Y TAB 88

7–8 Ionawr 2022

Bore Sul 9 Ionawr am 11

Cynhelir oedfa fyw yn y capel yng ngofal Eleri Jones a Geraint Rees, gyda Bethan Roberts wrth yr organ. Cofiwch bod modd hefyd i ymuno yn yr oedfa hon yn rhithiol ar *Facebook*.

YR OEDFAON NESAF

Ionawr

- 16 Oedfa yng ngofal Lowri a Dafydd Roberts a Helen Prosser
- 23 Y Parchedig Gethin Rhys
- 30 Oedfa yng ngofal Rhiannon a Gareth Humphreys ac eraill

Hefyd ddydd Sul 9 Ionawr

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth yng ngofal John Pritchard, Llanberis.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol –

Pantycelyn. Derec Llwyd Morgan fydd yn cloriannu mawredd Pantycelyn a'i waith, gyda Delyth Morgans Phillips yn trafod apêl fythol ei emynau.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Cydymdeimlad

Estynnwn pob cydymdeimlad gydag Ann Dwynwen a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth yn dilyn marwolaeth Gwyn, brawd Ann, yn gynharach yn yr wythnos wedi cystudd hir.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth 11 Ionawr. Os oes gennych unrhyw fater i'w godi, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws, ar gehpengwern@yahoo.co.uk, 01443 225205 neu anfonwch neges destun i 07710 237327 erbyn nos Lun 10 Ionawr fan bellaf.

Newidiadau Pellach

Mae'n hen ystrydeb erbyn hyn i ddatgan bod wythnos yn gyfnod maith mewn gwleidyddiaeth. Ond heddiw medrwn ychwanegu bod y dyddiau diwethaf wedi bod gyfnod o newid cyflym i ni yn y Tabernacl. Mewn llai nag wythnos wedi i ni adrodd nad oedd y rhagolygon yn edrych yn dda i ailagor y capel am wythnosau lawer yn sgil lledaeniad sylweddol yn yr amrywiolyn Omricon, cyhoeddwyd ganol yr wythnos hon y byddai drysau'r capel yn ailagor y dydd Sul yma wedi'r cyfan. Felly mae'n siŵr bod rhai ohonoch am wybod y rheswm dros y newid sydyn.

Daw'r ateb o'r sesiwn rhithiol a gafwyd nos Fawrth yng nghwmni Rhodri Darcy, swyddog gydag Undeb yr Annibynwyr, ar y broses o ffrydio oedfaon. Wedi gwrandao ar ei sgwrs ardderchog, a deall y problemau ymarferol yn gysylltiedig â llunio oedfa rithiol erbyn y Sul, cytunwyd i fentro cynnal arbrawf trwy drefnu oedfa fyw i gynulleidfa gyfyngedig iawn yn y capel a'i darlledu ar *Facebook*. Gwelir yr arbrawf hwn fel cam cyntaf yn y cynllun arfaethedig i ddatblygu'n eglwys hybrid. Yn ei gyflwyniad, dangosodd Rhodri bod sawl lefel o soffistigeiddrwydd y gellir eu mabwysiadu i ffrydio oedfa, o Lefel 1 i Lefel 5. Prif ddiben cyfarfod y Gweithgor Technoleg oedd dysgu pa offer fyddai ei angen arnom i ffrydio, ynghyd â derbyn cyngor beth fyddai'r gofynion o ran offer a phobl i'w weithredu.

Pan fydd y Gweithgor yn cwrdd nesaf, y gobaith yw y bydd modd dod i gasgliad pa offer y dylem anelu i'w sicrhau a pha hyfforddiant fydd yn rhaid ei ddarparu er mwyn cynnal eglwys hybrid. Hyderwn y bydd yr arbrawf o ffrydio gan ddefnyddio offer Lefel 1 (sef ffôn symudol neu iPad) yn ddigonol yn y tymor byr tra ein bod yn paratoi cais am nawdd i'n galluogi i symud i Lefel 3 neu 4. Bydd cyfle i aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr fynegi eu barn am yr arbrawf yn eu cyfarfod nos Fawrth nesaf, ond byddwn yn croesawu sylwadau gan unrhyw un. **Yn y cyfamser, gobeithiwn y cewch fendith wrth ymuno yn yr oedfa fore Sul – boed hynny'n fyw neu'n rhithiol.**





PIGION O'R WASG

NODDFA I'R GYMUNED

'Where else do you see an asylum seeker, a teacher, an Elvis impersonator, a boxer, a single mother, a scientist, a bouncer, a baby, a chef, a traveller, a recovering alcoholic, a teenager and an OAP walk into a building for an hour to meet? Nowhere but Noddfa Church!'

Pan sylwais ar y geiriau uchod mewn erthygl yn rhifyn dydd Mawrth o'r *Western Mail*, roedd yn rhaid darllen ymhellach er mwyn dysgu mwy am y capel nodedig hwn. Mae'n debyg bod y gynulleidfa a fynychai'r Noddfa yn Abersychan lai na deng mlynedd yn ôl, fel llawer o eglwysi yn y cymoedd ôl-ddiwydiannol, wedi crebachu i'r fath raddau fel mai hanner dwsin yn unig oedd yno i gynnal yr achos. Roedd yr aelodau hynny o'r farn mai mater o amser yn unig fyddai hi cyn y byddai'n rhaid cau'r drysau am y tro olaf. Ond ar waethaf eu pryderon, bellach mae dros 100 yn mynychu'r oedfaon ar y Sul a chynhelir gweithgareddau amrywiol yno bob dydd o'r wythnos.

Cyfrinach y trawsnewidiad yn amgylchiadau'r Noddfa oedd estyn gwahoddiad yn 2014 i John Edward-Funnell eu harwain. Mae'r erthygl yn adrodd hanes ei fywyd o'i fagwraeth anodd ar aelwyd ddigrefydd i fod yn gyfarwyddwr busnes rhyngwladol llwyddiannus yn 25 mlwydd oed. Ond yn 2008 fe benderfynodd troi ei gefn ar gyfalafiaeth wedi iddo sylweddoli bod mwy i fywyd nag arian. Fel anffyddiwr rhonc ar y pryd, dechreuodd ymchwilio i nifer o gredoau'r byd a darllen y Beibl am y tro cyntaf yn ei fywyd, cyn dod i'r casgliad o ddilysrwydd dysgeidiaeth yr Iesu.

Aiff yr erthygl yn ei blaen i egluro sut yr aed ati i weddnewid amgylchiadau'r achos. Y cam cyntaf oedd canolbwyntio ar anghenion y gymuned mewn tref lle roedd 40% o'r disgyblion yn derbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim, a lle roedd dros hanner y cartrefi'n byw mewn tloidi mewn stad o 800 o dai ar bwys y capel. Dosbarthwyd llythyrau i holl dai'r gymdogaeth yn cynnig cymorth, cynnal digwyddiadau cymunedol, ymweld ag ysgolion, ac yna agor y capel yn ddyddiol. Trwy'r wythnos mae'r eglwys yn cefnogi teuluoedd ifanc, y digartref, yr henoed, yn cynnal banc bwyd, cefnogi plant gyda gwaith cartref a chlybiau brechwast a grwpiau astudio'r Beibl. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn mae teuluoedd yn dewis mynychu'r oedfaon ar y Sul ac yn rhannu'r egwyddor greiddiol o droi cefn ar hunanoldeb er mwyn gwneud eu gorau dros eraill.

Os oes awydd arnoch i ddysgu rhagor am yr hyn a gynigir gan Noddfa, sydd yn wahanol iawn o ran ei safbwynt diwinyddol i'r Tabernacl, yna trowch at eu gwefan at <http://noddfachurch.com>.

Cofio Anwyliaid

Pan oeddwn wrth y capel y bore yma, ni fedrwn lai na sylwi ar y torchau a blodau niferus oedd wedi eu gosod yn y fynwent gan unigolion er cof am eu hanwyliaid. Teimlwn fod hyn yn arwydd clir o bwysigrwydd y fynwent i deuluoedd, ac er mwyn gwerthuso'i bwysigrwydd fe es ati i gyfri sawl bedd oedd â thorch neu dusw o flodau arnynt.

Synnais fod wyth ar hugain o feddau â blodau arnynt, heb sôn am y pymtheg torch neu dusw blodau ger y wal goffa. Dyma gyfanswm o 43 o unigolion neu deuluoedd oedd wedi ymweld â'r fynwent dros gyfnod y Nadolig. Nifer sydd yn syndod o uchel yn fy marn i.

Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y gwaith o gadw'r fynwent yn saff, yn atyniadol ac yn groesawgar i'r rhai sydd am ymweld â hi. Hefyd mae'n cyfiawnhau cefnogi pob cais am gefnogaeth ariannol a wneir gan y criw bore lau am y gwaith cynnal a chadw y mae gofyn ei wneud o bryd i'w gilydd.

Edwyn Evans

Cylch Cadwgan

Bydd myrdd o ryfeddodau

Sgwrs gan

Y Prifardd Glenys M. Roberts, Creigiau

Nos Wener, 11 Chwefror am 7yh

Cyfarfod rhithiol wedi ei drefnu gan Gapel y Tabernacl.

Bydd rhagor o fanylion sut i ymuno i ddilyn.



Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk